# Bwrsariaeth Dechrau Busnes a Thwf Cynnar y Fro: Nodiadau Canllaw

**Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad economaidd a busnesau ledled y sir ac wedi sicrhau cyllid i gyflwyno Bwrsariaeth Dechrau Busnes a Thwf Cynnar y Fro, wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Twf Leol.**

**Mae'r fwrsariaeth yn cefnogi unigolion, grwpiau a busnesau cyfnod cynnar i ddechrau neu dyfu busnes ym Mro Morgannwg.**

## Ffit Strategol i Raglen Adfywio Bro Morgannwg

Mae'r Tîm Datblygu Economaidd, ar ran Cyngor Bro Morgannwg, yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adeiladu economi leol ffyniannus, gynhwysol a chynaliadwy.

Mae'r fwrsariaeth hon yn cefnogi'r uchelgais honno drwy alluogi entrepreneuriaeth, arloesi a thwf busnes, cefnogi gwytnwch cymunedol, a chreu cyfleoedd, gan gyfrannu at ffyniant a lles hirdymor yn y Fro.

## Cefnogi Twf a Chynhyrchiant Busnes

Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl bwysig y mae busnesau twf uchel yn ei chwarae wrth yrru cyflogaeth, cynhyrchiant a thwf economaidd.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi pwyslais clir ar gefnogi busnesau sydd â photensial twf uchel. Diffinnir hyn fel busnesau sy'n dangos y potensial i gyflawni twf o tua 20% flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn trosiant a chreu o leiaf 1 swydd cyfwerth ag amser llawn (CALl) o fewn 12 mis o fasnachu ar ôl derbyn y grant

Mae'r sectorau â blaenoriaeth yn cynnwys:

- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (gan gynnwys gweithgynhyrchu bwyd)
- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
- Adeiladu
- Creadigol
- Technoleg Ariannol
- Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys) (ac eithrio gwasanaethau statudol)
- Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth)

Bydd y sectorau uchod yn cael blaenoriaeth wrth adolygu ceisiadau.

Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried fesul achos yn amodol ar eu cyfraniad a'u gwerth posibl i'r economi leol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## Ffenestr Ceisiadau

Bydd y grant ar agor ar gyfer ceisiadau rhwng 7 Gorffennaf a 31 Hydref 2026 (neu hyd nes y dyrannwyd y cyllid).

Rhaid cyflwyno hawliadau o fewn 4 mis i'r llythyr cynnig neu erbyn 19 Chwefror 2027 (pa un bynnag yw'r dyddiad cynharaf).

## Swm y Dyfarniad Bwrsariaeth

Hyd at £7,500 (uchafswm o 80% o gostau'r prosiect). Rhaid i ymgeiswyr gyfrannu 20%. Gweler enghreifftiau gweithio isod:

- *Enghraifft 1: Cyfanswm costau'r prosiect yw £4,500 yn denu dyfarniad bwrsariaeth o £3,600 gyda'r £900 sy'n weddill i'w dalu gan yr ymgeisydd*
- *Enghraifft 2: Cyfanswm costau'r prosiect yw £9, 375 yn denu dyfarniad bwrsariaeth o £7,500 gyda'r £1,875 sy'n weddill i'w dalu gan yr ymgeisydd*

**Sylwch** bydd costau prosiect sy'n fwy na £9,375 yn denu uchafswm y fwrsariaeth o £7,500. Bydd unrhyw gost dros ben i'w hariannu gan yr ymgeisydd.

## Egwyddorion Cyffredinol

- Dangos angen clir am gyllid a nodi rhwystrau
- Canlyniadau mesuradwy
- Tystiolaeth o fwlch yn y farchnad
- Cynllun busnes credadwy a hyfyw, wedi'i gefnogi gan amcanestyniad llif arian parod o 2 flynedd
- Potensial twf
- Cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor

## Pwy all wneud cais?

Cewch wneud cais am Fwrsariaeth Dechrau Busnes a Thwf Cynnar Y Fro os:

- Mae gennych chi syniad ar gyfer busnes neu fenter gymunedol, neu rydych chi'n fusnes cyfnod cynnar (hyd at 2 flynedd o fasnachu), ac mae angen cymorth arnoch i'w weithredu neu ei dyfu.
- Rydych chi'n 18+ oed ac yn gymwys i weithio yn y DU
- Rydych chi'n byw ym Mro Morgannwg ac wedi'ch rhestru ar y gofrestr etholiadol gyfredol
- Gall ymgeiswyr sy'n dymuno adleoli i Fro Morgannwg wneud cais am fwrsariaeth ymlaen llaw, ond ni fydd ganddynt fynediad at y cyllid nes y darperir tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau bod yr adleoli wedi digwydd
- Mae ymrwymiad cadarn i ddatblygu busnes. Gall busnesau ddechrau ar sail rhan-amser; fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr ddangos cynllun clir a chredadwy i drosglwyddo i fasnachu amser llawn o fewn 12 mis, neu ddangos twf cyfatebol mewn gweithgareddau busnes.
- Mae gennych gynllun busnes hyfyw a llif arian parod i gefnogi'ch syniad
- Byddai'r fwrsariaeth yn hanfodol er mwyn dechrau'r busnes, ac ni fyddech yn gallu lansio eich busnes heb yr offer neu'r gwasanaethau y byddai unrhyw ddyfarniad bwrsariaeth yn eu cefnogi
- Nid oes ffynhonnell arall o arian ar gael i ariannu'r offer neu'r gwasanaethau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt
- Gall y busnes fod yn fusnes newydd (cyn-fasnachu), NEU yYn fusnes cyfnod cynnar, masnachu wedi'i sefydlu heb fod cyn 1 Ebrill 2024
- Ar gyfer busnesau presennol, rhaid i ymgeiswyr ddangos y canlynol:
  - Bydd y cyllid yn cefnogi newid sylweddol mewn twf o gynnydd o 20% mewn refeniw, ac
  - Nid yw'r cynnig ar gyfer gweithgareddau busnes fel arfer
- Ni chaniateir cymryd yr awenau ar fusnes presennol ac ni fydd yn cael ei ystyried

Os yw'n masnachu eisoes, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu:

- Tystiolaeth o weithgareddau masnachu
- Cynllun twf clir sy'n dangos sut y bydd y fwrsariaeth yn cyflymu datblygiad busnes gydag o leiaf 20% o gynnydd mewn refeniw neu gyfwerth, wedi'i gefnogi gan amcanestyniad llif arian parod o 2 flynedd
- Os yw eich busnes arfaethedig i'w sefydlu fel cwmni cyfyngedig, rhaid i gofnodion a gedwir yn Nhŷ'r Cwmnïau ddangos cyfeiriad cofrestredig y busnes sydd wedi'i leoli ym Mro Morgannwg, a rhaid i o leiaf un Cyfarwyddwr rhestredig fyw ym Mro Morgannwg
- **Gall y rhai sydd wedi rhedeg busnes o'r blaen wneud cais**, ond bydd entrepreneuriaid tro cyntaf yn cael blaenoriaeth. Bydd angen tystiolaeth ar bob ymgeisydd i ddangos bod eich syniad busnes newydd yn sylfaenol wahanol i ymrwymiadau busnes blaenorol o ran ei gynnig gwerth cyffredinol a'i farchnad darged.
- Ni chaiff derbynwyr blaenorol Bwrsariaeth Cychwyn Busnes y Fro (wedi derbyn grant ers 2022) wneud cais am grant busnes newydd arall, ond gallant wneud cais am gymorth pellach os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd twf cynnar.
    - Rydych chi'n cytuno i ddarparu tystiolaeth bod unrhyw fwrsariaeth a ddyfarnwyd wedi'i defnyddio at y diben a gymeradwywyd.
    - Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw grantiau neu gynlluniau cyllid eraill rydych chi'n gwneud cais amdanynt pan fyddwch yn gwneud eich cais i ni.
    - Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fusnesau sy'n dangos potensial twf cryf.

## Pwy na all wneud cais?

Mae rheolau Bwrsariaeth Dechrau Busnes a Thwf Cynnar y Fro yn gwahardd y canlynol rhag gwneud cais:

- Y rhai sydd y tu allan i'r terfynau daearyddol a nodir uchod
- Unrhyw un sydd â chostau cychwyn sy'n fwy na £25,000
- Cyrff statudol
- Busnesau sy'n canolbwyntio ar godi arian elusennol
- Ymgeiswyr heb hawl gyfreithiol i weithio yn y DU
- Grwpiau gwleidyddol
- Y rhai nad ydynt yn fodlon ymrwymo i gyfle cyfartal o ran iaith, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cred neu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, anabledd.
- Busnesau sydd wedi bod yn masnachu am fwy na 2 flynedd
- Busnesau lle mae'r cais yn ymwneud â chynnal gweithrediadau cyfredol yn unig yn hytrach na chefnogi twf neu ehangu
- Unrhyw fusnes lle mae ystyriaethau moesegol neu enw da. Er enghraifft: gamblo, gweithgynhyrchu arfau, pren anghynaliadwy, benthyca arian, adloniant i oedolion, cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion canabis nad ydynt wedi'u hawdurdodi fel meddyginiaethau, ffactorio dyled, cyllid hurbwrcasu, cynlluniau pyramid, prosiectau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol neu grefyddol neu weithgareddau anghyfreithlon neu anfoesol.

## Beth y gellir ei ariannu?

Enghreifftiau nodweddiadol o wariant y gellir eu hariannu drwy'r grant hwn, ond heb eu cyfyngu iddynt:

- Offer cyfalaf sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'ch busnes.
- Yswiriant Busnes Gorfodol
- Ffioedd datblygu meddalwedd / gwefannau
- Rhentu safle pwrpasol i weithredu eich busnes ohono
- Costau cysylltiedig aelodaeth i Gyrff Proffesiynol cydnabyddedig, cysylltiedig, costau Datblygiad Proffesiynol Parhaus perthnasol i gynnwys cyrsiau hyfforddi a ffioedd arholiadau
- Cymorth a chyngor arbenigol i ddatblygu eich syniad busnes, e.e. ymchwil i'r farchnad, costau cyfreithiol a chyfrifyddiaeth, astudiaeth ddichonoldeb, ac ati.

- Cost deunyddiau marchnata i hyrwyddo lansiad eich busnes fel taflenni, cardiau busnes a baneri
- Hyrwyddo a hysbysebu ar-lein yn y 6 mis cyntaf o fasnachu i gefnogi lansiad eich busnes
- Buddsoddiad i gefnogi ehangu busnes, gan gynnwys cynyddu cynhyrchu, mynediad i farchnadoedd newydd, neu gynyddu capasiti
- Offer, systemau, neu dechnoleg sy'n gwella cynhyrchiant neu effeithlonrwydd
- Mae eitemau a brynir trwy gardiau credyd yn gymwys. ** Rhaid i Gwmnïau Cyfyngedig ddefnyddio cerdyn credyd y cwmni ar gyfer pryniannau. Rydym yn annog unig fasnachwyr a phartneriaethau i ddefnyddio bancio busnes / cardiau credyd.

**Sylwch**, os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, yna gallwch gynnwys TAW yn eich costau a hawlir.  Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, yna rhaid eithrio TAW o'ch costau

## Beth na ellir ei ariannu?

- Gwariant ôl-weithredol lle talwyd am nwyddau a gwasanaethau eisoes. Pan fo taliadau ymlaen llaw wedi'u gwneud i gwmnïau dylunio gwefannau, sy'n arfer safonol o fewn y proffesiwn, ystyrir bod unrhyw benderfyniad yn ôl disgresiwn ac yn cael ei benderfynu gan y panel bwrsariaeth
- Costau na ellir eu harchwilio fel taliadau arian parod heb eu cefnogi gan system arian parod bach cymeradwy
- Nwyddau traul sy'n symud yn gyflym, e.e. deunydd ysgrifennu, inc argraffydd, neu unrhyw eitemau sy'n ofynnol yn rheolaidd i fasnachu
- Ffioedd trwydded barhaus
- Ad-daliadau benthyciadau
- Ceisiadau am eitemau amhenodol, e.e., arian wrth gefn
- Atgyweiriadau neu welliannau i dir
- Mae atgyweiriadau i adeiladau i gefnogi'r lansiad busnes yn ôl disgresiwn ac yn cael eu penderfynu gan y Panel Bwrsariaeth
- Unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â safbwyntiau neu ymgyrchoedd
- crefyddol neu wleidyddol
- Unrhyw weithgaredd sy'n anghyfreithlon neu sydd, ym marn y Panel, yn cefnogi torri'r gyfraith neu ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- Unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â phornograffi, sy'n cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath neu unrhyw weithgareddau anghyfreithlon,
- Unrhyw weithgaredd sy'n anghyfreithlon neu sydd, ym marn y Panel, yn
- cefnogi torri'r gyfraith neu ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- Unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â phornograffi, sy'n cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath neu unrhyw weithgareddau anghyfreithlon,
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, ym marn y Cyngor, ddod ag anfri ar y Cyngor neu fod yn newydd neu'n ddadleuol, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau, cynhyrchion a thriniaethau nad ydynt wedi'u rheoleiddio ac sy’n ymledol, modelu noethlymun neu led-noethlymun, canolfannau hapchwarae, gwasanaethau gwelyau haul, meddyginiaethau, siopau fêp, siopau tybaco, dylanwadu ar gyfryngau cymdeithasol, cwnsela, hyfforddwyr bywyd, tatŵwyr, adeiladu dyfaliadol, triniaethau meddygol ategol, cynhyrchion cosmetig, gweithdrefnau esthetig, cynhyrchion olew CBD a crypto-arian.
- Mae offer ail law yn ôl disgresiwn ac yn cael ei benderfynu gan y Panel Bwrsariaeth
- Gwaith cynnal a chadw neu adnewyddu cyffredinol nad yw'n cael ei ystyried yn berthnasol neu'n hanfodol i fasnachu
- Gwasanaethu offer presennol
- Costau tuag at daliadau banc a / neu ad-dalu dyled
- Cyrsiau hyfforddi hamdden nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogaeth
- Cyrsiau a ariennir mewn mannau eraill ar hyn o bryd

- Gweithgareddau sydd â bwriad, defnydd neu gyflwyniad gwleidyddol pleidiol
- Costau cyflogau
- Alcohol, cildyrnau, rhoddion a gwobrau
- Prynu stoc at ddibenion masnachu cyffredinol, oni ystyrir ei fod yn angenrheidiol i lansio'r busnes yn llwyddiannus yn ei ddyddiau cynnar
- Efallai na fydd unrhyw brosiect sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio lle NAD yw'r caniatâd hwnnw ar waith eisoes yn gallu bwrw ymlaen oherwydd natur amserol y cyllid Bwrsariaeth – sy'n gofyn i'r holl wariant ar y prosiect fod wedi'i gwblhau, ei hawlio a'i dystiolaethu erbyn 19 Chwefror 2027
- Ni fydd pryniannau arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer taliad grant.
- Ni fydd eitemau a brynwyd trwy brynu ar brydles, hurbwrcasu, cytundebau credyd estynedig/les cyllid yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant.
- Ni fydd pryniannau gan werthwyr / unigolion preifat yn cael eu hystyried, e.e. Facebook Marketplace, ac ati. Rydym yn ystyried pryniannau gan werthwyr / cyflenwyr masnachol yn unig
- Ni fydd grantiau'n daladwy pan fo ardrethi busnes ymgeisydd a/ neu'r dreth gyngor mewn ôl-ddyledion.
- TAW lle y gellir ei adennill

## Proses Dalu

Bydd y fwrsariaeth yn cael ei thalu yn unol â'r meini prawf isod:

- Mae'r broses ymgeisio wedi'i chwblhau'n llawn
- Rydych chi wedi cyflwyno eich syniad busnes i banel ar-lein o aseswyr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Sectorau Cyhoeddus a Phreifat, ac wedi bod yn llwyddiannus yn eich dyfarniad bwrsariaeth
- Rydym wedi derbyn eich 'Llythyr Ariannu' wedi'i lofnodi yn cytuno i ddefnyddio'r fwrsariaeth at y diben y bwriadwyd.

Rydych chi wedi prynu'r eitem(au) neu wasanaeth(au) a gymeradwywyd gan y panel y cytunwyd arnynt ac wedi darparu eich hawliad gyda phrawf prynu ar ffurf derbynneb talu (e.e. tystiolaeth sgrinluniau neu ffotograffau, a rhifau cyfresol offer lle bo'n berthnasol) ynghyd â chopi o'ch datganiadau banc sy'n dangos tystiolaeth o daliad. Ar ôl derbyn hyn, telir y fwrsariaeth o fewn 28 diwrnod.

Fel arfer, telir grantiau yn ôl-weithredol ac mae angen i ymgeiswyr brynu ymlaen llaw, ac yna hawlio gwerth y grant gan Gyngor Bro Morgannwg gan ddilyn y broses hawlio a amlinellir yn y telerau ac amodau.
Er mwyn cefnogi llif arian parod, bydd y tîm grantiau yn cynnig strwythur talu fesul cam amgen hefyd, bydd yr opsiwn hwn yn cael ei gynnig fel rhan o'ch llythyr ariannu.

## Proses Ymgeisio

Datganiad o Ddiddordeb ac yna cais llawn (os yw'n gymwys).

Mae'n ofynnol i chi gwblhau Datganiad o Ddiddordeb, mae hyn yn rhoi amlinelliad o'ch syniad busnes i'r Cyngor. Bydd eich cyflwyniad ar-lein yn cynhyrchu deialog (dros y ffôn, galwad teams ar-lein neu sgwrs e-bost) gydag Uwch Swyddog Adfywio a fydd yn dilyn proses ddyledus i sefydlu sgôr cymhwysedd pasio neu fethu cychwynnol i chi wneud cais.

Os ystyrir eich bod yn llwyddiannus i symud ymlaen i'r cam ymgeisio, bydd dolen yn cael ei hanfon drwy e-bost atoch sy'n cynnwys ffurflen gais ar-lein a dolenni i dempledi ar gyfer y dogfennau canlynol:

- Templed Cynllun Busnes
- Datganiadau Ariannol gan ddefnyddio Microsoft Excel (**Rhagolwg Llif Arian Parod ac Elw a Colled Dwy Flynedd)**
- Cynllun Caffael gan ddefnyddio Microsoft Excel

Bydd canllawiau ar gwblhau'r broses ymgeisio a **amlinellir uchod yn cael eu darparu gan Swyddog Cynghori pwrpasol** o dîm Busnes Cymru. Bydd esboniad o sut i gofrestru gyda **Busnes Cymru** a chael mynediad i'r Cynghorydd yn cael ei ddarparu pan fyddwch yn cael gwybod eich bod yn cael symud ymlaen i'r cam ymgeisio llawn.

Rhaid cwblhau pob adran mor llawn a chryno â phosibl.

- Ni fydd prosesu eich cais yn dechrau nes eich bod **wedi derbyn cyngor gan dîm Busnes Cymru** ac rydych chi wedi cyflwyno eich ffurflen gais gyflawn a'r holl wybodaeth/ atodiadau gofynnol. I drafod eich cynnig a'ch cymhwysedd ymhellach, anfonwch e-bost i: vsubursary@valeofglaomorgan.gov.uk
- Bydd angen i ddyfynbrisiau ar ffurf sgrinluniau neu ddyfynbrisiau ffurfiol gyd-fynd â'r eitemau a restrir ar eich Cynllun Caffael a bod ynghlwm, gweler y tabl isod. **Bydd angen i'r rhain fod ar gael ar y cam mentora a chyngor gan dîm Busnes Cymru, fel y gellir ymgorffori'r gwerthoedd yn llawn i'ch Cynllun Busnes a gwybodaeth ariannol ategol.**

| Gwerth pob eitem neu wasanaeth sydd i'w brynu | Camau caffael sydd eu hangen |
|---|---|
| **Dan £150** | Dim dyfyniad yn ofynnol |
| **Llai na £500** | Un dyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr ar bapur pennawd, e-bost neu sgrinlun |
| **£500 - £5000** | Dau ddyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr ar bapur pennawd, e-bost neu sgrinlun<br><br>Mae'n bwysig bod yn benodol oherwydd gall pethau bach gael effaith fawr ar gost gyffredinol cynnyrch. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl am ansawdd yn y dyfyniadau a ddarperir. |
| **Dros £5000** | Dau ddyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr ar bapur pennawd, e-bost neu sgrinlun<br><br>Byddwch yn benodol yn eich manyleb. Dyma'ch cyfle i osod y safon ansawdd ar gyfer y gwaith hwn. Oni ellir ei gyfiawnhau a chyda chytundeb Cyngor Bro Morgannwg, mae'n ofynnol i chi fynd gyda'r dyfynbris isaf. Gwneir hyn i sicrhau gwerth am arian. |

**Sylwer:** dyma'ch cyfle i osod y safon ansawdd ar gyfer y gwaith hwn, oni bai y gellir ei gyfiawnhau a gyda chytundeb Cyngor Bro Morgannwg mae'n ofynnol i chi fynd gyda'r dyfynbris isaf. Gwneir hyn i sicrhau gwerth am arian.

**Mae Cyngor Bro Morgannwg yn annog ymgeiswyr wrth ystyried dyfynbrisiau i archwilio'r farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau ym Mro Morgannwg sy'n gallu darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n chwilio amdanynt a'u cynnwys yn eich gwahoddiadau i gynnig dyfynbris. Mae gan fusnesau sy'n gweithredu yn y Fro rôl bwysig i'w chwarae yn natblygiad y gadwyn gyflenwi a thwf economaidd.**

## Proses Asesu Grantiau

Bydd pob cais a dderbynnir yn cael ei asesu ar gyfer y canlynol:

- Cymhwysedd i wneud cais i'r fenter fwrsariaeth hon.
- Sicrwydd o gymwysterau perthnasol yr ymgeisydd a phrofiad blaenorol i gefnogi'r busnes
- Mae'r syniad busnes yn mynd i'r afael â bwlch ac angen dilynol yn y farchnad, gyda thystiolaeth ategol
- Unigrywedd y cynnyrch neu'r gwasanaeth
- Pa drefniadau wrth gefn sydd ar waith i fodloni ymrwymiadau aelwydydd misol yr ymgeisydd wrth i'r busnes ddatblygu?
- Y potensial i'r busnes dyfu, gan gynnwys:
  - Twf refeniw
  - Creu swyddi
- Trosglwyddo o fasnachu rhan-amser i fasnachu amser llawn
- I ba raddau y bydd y fwrsariaeth yn galluogi newid sylweddol mewn perfformiad busnes
- Cyfraniad at gynhyrchiant, arloesi, neu ehangu'r farchnad
- Pa rwystrau eraill i lwyddiant sydd wedi'u hystyried, e.e. amodau masnachu arafach, a pha fesurau sydd ar waith i liniaru risg bosibl?

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddod yn garbon sero-net erbyn 2030 ac mae'n awyddus i hyrwyddo arferion busnes cynaliadwy drwy ei raglenni cyllid. Fel rhan o'r cais, gofynnir i chi sut mae eich busnes yn dangos ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Ystyriwch lofnodi Addewid Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Addewid Twf Gwyrdd I Busnes Cymru

## Pwy sy'n penderfynu?

- Mae Bwrsariaeth Dechrau Busnes a Thwf Cynnar y Fro yn grant yn ôl disgresiwn ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth gan Gyngor Bro Morgannwg.  Bydd Panel Bwrsariaeth yn penderfynu ar bob cais.  Fforwm ar-lein yw hwn lle gofynnir i chi gyflwyno eich syniad busnes i aelodau'r panel. Bydd yr Uwch Swyddog Adfywio yn eich helpu i baratoi a darparu cymorth a chefnogaeth ymarferol ymlaen llaw i fagu eich hyder. Mae'r Panel yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys tri neu bedwar beirniad. Bydd eich Uwch Swyddog Adfywio yn cynnig cyfle i chi gael ymarfer ymlaen llaw i'ch helpu i gyflwyno'r fersiwn orau o'ch cyflwyniad
- Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Sector Cyhoeddus a Phreifat.  Mae penderfyniad y Panel o ran ceisiadau yn derfynol.   Mae gan ymgeiswyr hawl i gael adborth ynghylch penderfyniad y Panel, y gallant ei gael drwy wneud cais i vsubursary@valeofglamorgan.gov.uk [**Sylwer:** rhaid i bob beirniad gydymffurfio â'r un mecanwaith sgorio, ac er mwyn i ymgeiswyr fod yn llwyddiannus, rhaid bod cytundeb gan bob beirniad ar y panel, gyda'r angen i bob beirniad ddarparu isafswm sgôr sy'n cynrychioli 'Pasio']
- Mae hon yn broses gystadleuol, a bydd pob dyfarniad bwrsariaeth yn cael ei benderfynu ar sail teilyngdod. Cynghorir ymgeiswyr na fydd y rhai sydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan y Cyngor yn y gorffennol yn cael sicrwydd cyllid yn awtomatig yn y dyfodol.
- Byddwch yn cael eich hysbysu gan eich Uwch Swyddog Adfywio penodedig o ganlyniad eich cyflwyniad i'r Panel dros y ffôn o fewn 48 awr i'ch cyfarfod panel. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y contract yn cael ei lunio ar ffurf 'Llythyr Ariannu' i chi ei ddarllen, ei lofnodi a'i ddychwelyd. Ar ôl derbyn a chydnabod eich ymateb i'r llythyr hwn gan Fro Morgannwg, gallwch brynu'r eitemau a gymeradwywyd gan y panel yn unol â hynny. Os na fyddwch chi'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich hysbysu ac yn derbyn cymorth datblygu adeiladol ac ymarferol i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd a ystyriwyd er mwyn eich helpu yn y dyfodol.

- Bydd eich Llythyr Ariannu yn rhoi amserlen i chi o ran pryd y mae'n rhaid cyflwyno eich hawliadau i Fro Morgannwg eu talu. Os na chaiff y dyddiad cau hwn ei fodloni, mae Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i ofyn am ddychwelyd yr arian
- Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i leihau swm y cyllid a ddyfarnwyd os nad ydym o'r farn bod swm y gwnaed cais amdano yn cynrychioli gwerth am arian neu os nad oes digon o arian ar gael i fodloni'r cais.

**Sylwch** - Bydd angen i geisiadau fod yn barod i fwrw ymlaen â nhw cyn iddynt gael eu cyflwyno i banel felly rhaid cadarnhau gofynion hanfodol fel arian cyfatebol, caniatâd cynllunio (lle bo'n berthnasol), ac ati, cyn i'ch Uwch Swyddog Adfywio baratoi'r cais i'w ystyried yn y panel. Bydd eithriadau i'r amodau hyn yn cael eu hystyried fesul achos.

## PWYSIG

- Mae cronfeydd yn gyfyngedig. Er bod y cynllun yn parhau i fod yn hygyrch i ystod eang o fusnesau newydd, gellir rhoi ystyriaeth ychwanegol i fusnesau sy'n gallu dangos potensial cryf ar gyfer twf, creu swyddi, neu welliannau cynhyrchiant.  Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i sicrhau bod cydbwysedd o geisiadau'n cael eu cefnogi drwy gydol y flwyddyn ariannol, rhwng busnesau cwbl newydd a'r rhai sy'n masnachu am lai na 2 flynedd, yn unol â chanllawiau cyllido.
- **Bydd angen i ymgeiswyr gadw at ddyddiadau cau llym drwy gydol y broses, gall methu â gwneud hynny atal eich cais rhag symud ymlaen neu gall arwain at dynnu eich cynnig cyllid yn ôl.**
- **Rhaid cymeradwyo eich cais cyn i chi wneud unrhyw bryniannau neu ddechrau gwaith, ni fydd unrhyw arian grant yn cael ei gyhoeddi ar gyfer unrhyw eitemau a brynwyd neu waith a wnaed cyn cyhoeddi cymeradwyaeth ysgrifenedig.**
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r holl waith a gymeradwyir a chyflwyno tystiolaeth o daliad cyn y gall hawlio'r grant.
- Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddychwelyd unrhyw dystiolaeth ofynnol y gofynnwyd amdani yn rhesymol gan Gyngor Bro Morgannwg, ar ôl dyfarnu cyllid, yn unol â'r canllawiau ariannu.  Gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud â thwf busnes a gyflawnwyd ar ôl y cyllid, os yw'n berthnasol.

**Bydd yn ofynnol i Fusnesau Newydd gynnig o leiaf y dystiolaeth ganlynol::**
**A.** Enw'r fenter a grëwyd.
**B.** Cofrestru cwmni neu dystiolaeth CThEF i ddangos creu busnes
**C.** Yswiriant Busnes i brofi bod gweithgaredd wedi dechrau

**Bydd yn ofynnol i fusnesau twf cynnar ddarparu tystiolaeth o:**
**A.** Enw'r fenter.
**B.** Data cynhyrchiant gwaelodlin a dilynol a / neu
**C.** Datganiad rheoli i ddangos cynnydd yn y meysydd a gefnogir.

**Rhaid ad-dalu'r grant yn llawn ar alw os:**
- canfyddir bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw gamliwio mewn cysylltiad â'r cais.
- mae'r ymgeisydd wedi torri unrhyw delerau ac amodau perthnasol, neu mae'r busnes yn adleoli o fewn 5 mlynedd i'r dyfarniad i leoliad y tu allan i Fro Morgannwg.

## MANYLION CYSWLLT BWRSARIAETH DECHRAU BUSNES A THWF CYNNAR Y FRO:

**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holltwn**
**Y Barri**
**CF63 4RU**

vsubursary@valeofglamorgan.gov.uk

**Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i ddiwygio a gwneud newidiadau i'r cynllun yn unol â chanllawiau cyllido.**